OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 498 (Cy. 115)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mawrth 2019* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *7 Mawrth 2019* |
| *Yn dod i rym - -* | *28 Mawrth 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3(1) o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**)a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**)ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at offerynnau'r Undeb Ewropeaidd a grybwyllir yn erthygl 3(a)(ii) a (iii) gael eu dehongli fel cyfeiriadau at yr offerynnau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

(**1**) 1967 p. 8. Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 2 a 3(1) yn cael eu rhoi i awdurdod cymwys ("competent authority"), a ddiffinnir yn adran 1(2) fel Gweinidogion Cymru, o ran Cymru. Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 (O.S. 2013/755 (Cy. 90)). Diwygiwyd adran 2 gan baragraff 8(2)(a) o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68), Rhan 1 o'r tabl ym mharagraff 12 o Atodlen 4 i Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1979 (p. 2) ac O.S. 1990/2371 a 2011/1043. Diwygiwyd adrannau 2(1) a 3(1) gan baragraff 8 o Atodlen 4 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (p. 68). Diwygiwyd adran 3(1) hefyd gan O.S. 2011/1043, erthygl 6.

(**2**) 1972 p. 68; mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) ac O.S. 2007/1388.

(**3**) Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006, a Rhan 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008.